HG 35. 5. 76

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

# BARCH. JOHN HUGHES,

## LE'RPWL,

GWEINIDOG YR EFENGYL GYDA'R TREFNYDDION CALFINAIDD,

YR HWN

**A fu farw Awst 8, 1860, yn 64 mlwydd oed,**

*Ar ol bod yn pregethu yr efengyl 48 o flynyddau, gyda pharch a derbyniad mawr.*

---

GAN GYFAILL GALARUS.

---

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."
*Solomon.*

BANGOR:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.

---

*Pris Un Geiniog.*

X205310132

# MARWNAD.

*Ar y Dôn*—"DINIWEIDRWYDD."

1 MAE cerbydau ingol angeu
Trwy ororau daear lawr;
Cludo mae y teulu dedwydd,
'Nawr o wlad y cystudd mawr,
A fu yma yn cyhoeddi
Yr efengyl fwyngu faith,
A'u dybenion penaf ydoedd
Denu miloedd at y gwaith.

2 Y mae galar yn gorlenwi
Yr eglwysi yn ddilyth,
O waith colli eu hathrawon
Tyner, ffyddlon iawn o'u plith.
Troi mewn olwyn y mae olwyn,
Gael y duwiol deulu 'nghyd,
Oll i'r addas lân briodas,
Yn yr urddas Ganaan glyd.

3 Atynt hwy aeth Hughes o Le'rpwl,
I'r briodas hynaws hon,
At ei anwyl Briod Iesu,
Lle mae'r teulu oll yn llon.
Darfod wnaeth â dyddiau galar
Yma ar y ddaear las,
I gael canmol yn dragwyddol
Crist am gadwedigol ras.

4 Yn Adwy'r Clawdd, a Gwrecsam hefyd,
Mae rhyw dristwch dybryd dwys;
Ac yn Le'rpwl mae galaru,
Waith ei gladdu dan y gwys.
Wyth a deugain o flynyddoedd,
Cyhoeddodd wir Etifedd nef;
Cymhell pawb a wnaeth yn unfryd,
At ei ystlys waedlyd Ef.

5 Colled fawr i'r Methodistiaid
Colli gŵr mor ddoeth mewn dysg;
Ysgrifenodd amryw lyfrau,
Fydd gofgolofnau yn eu mysg:
Och! rhaid ini ddweyd er galar,
Hughes a aeth i'r ddaear ddu,
Er mawr dristwch i'r eglwysi
D'darfu golli eu Bugail cu.

6 Dyma'r newydd aeth trwy'r gwledydd,
Wnai'r eglwysydd oll yn syn;
Llwythau Israel sydd yn gofyn,
O! ai gwir yw'r newydd hyn—
Fod y Parch. John Hughes o Le'rpwl
Wedi myn'd i rych y rhaw,
Oedd mor ddoniol a defnyddiol,
Doeth a siriol ar bob llaw?

7 Tad cariadus oedd a gweddus,
Gwas llafurus yn ei oes;
Gwnaeth ddadguddio rhyfeddodau,
Mawr rinweddau angeu loes:
Gŵr mewn parch a gŵr o enw,
Hardd a gloew yn ei ddydd;
Hughes o Le'rpwl a fu farw,
Mawr y galar heddyw sydd!

8 Methu wnaeth yr holl feddygon,
A'r cynghorion roisant hwy,
A holl nerth eu physigwriaeth,
I gael meddyginiaeth mwy:
Gwel'd naturiaeth yn llewygu,
Pawb yn methu gwneuthur dim;
Darfod byw, O! wele marw
'N d'od i'w alw yn ei rym.

9 Colled fawr i Gymru gladdu
Hughes o Le'rpwl lwysgu lawn;
'Nawr adgofia plant diwygiad
Am ddylanwad mawr ei ddawn:
Sŵn llifeiriant ffrwd ei ddoniau
Dystawodd oll yn rhydiau'r glyn,
Heddyw mae mor fud ag ereill!
Cymhell neb o'r bedd ni fyn.

10 Hughes a gafodd ei gystuddio
Gan afiechyd amser maith;
Yn Abergele, angeu creulon
Roddodd derfyn ar ei daith.
Er cymaint oedd ei aml rinweddau,
Pan ddaeth angeu yn ei rym,
Fe roes derfyn ar ei yrfa,
Gyda'i fwa laddfa lym.

11 Ca'dd y Parch. John Hughes ei alw,
Er mor loew yn ei le;
Aeth drwy'r tonau a'r dyfnderau,
I drigfanau nawdd y ne';
Heddyw'n rhoddi mawl diderfyn,
Na raid ofni gelyn mwy,
Gyda'r nefol dorf freninol,
Byth o gyraedd marwol glwy'.

12 Un nodedig oedd a didwyll,
Megys canwyll yn ei ddydd,
Neu ryw heulwen wiwlwys eirian,
Yn ei drigfa colled sydd;

Mewn sirioldeb y gweddiai,
  A chynghorai ar ei wên,
Ac mewn sobrwydd y ceryddai
  Bawb ddirmygai'r tlawd a'r hen.

13 Gŵr a'r blodau braf a'r perlau,
  A thelynau nawdd y Ne;
Gŵr yn byw yn mysg y lili,
  Ac yn perarogli'r lle;
Didwyll laeth y gair oedd ganddo,
  Roddwyd iddo gan ei Dduw,
Ddaeth â bywyd i fyrddiynau,
  Trwy bob croesau, 'n ddyfroedd byw.

14 Yn yr arfau cyflawn gwisgwyd,
  Olew roddwyd ar ei ben;
Hughes a aeth i'r maes yn ffyddlon,
  Dan fendithion nefoedd wen.
Pwy'n gyflymach ar ei fwa,
  Pwy anelai yn fwy llym?
Pwy â'i wisgoedd yma'n loewach?
  Rhoddwch bellach wybod im'.

15 Dyma faesydd gweinidogaeth
  Parch. John Hughes trwy'i hirfaith oes,
A rhodfeydd ei fyfyrdodau,
  A'i weddiau ddydd a nos.
Hughes bregethodd faith flynyddoedd,
  Ni ddiffygiodd yn ei ffydd;
'R holl wasanaeth a gyflawnodd,
  Ac ni flinodd yn ei ddydd.

16 Ofer imi mwy ei geisio,
  Chwaith na'i wrando ar y llawr;
Diangodd at y teulu dedwydd,
  Aeth o fyd y cystudd mawr.
Ffarwel ei glywed mewn cwrdd misol,
  Chwarterol, na blynyddol mwy;
Ehedodd adref at y teulu,
  I gydganu am farwol glwy'.

17 I'w gladdedigaeth ymgynullodd
  O'r ardaloedd filoedd maith;
Gweinidogion a blaenoriaid
  Y Methodistiaid a'u gruddiau'n llaith;
A'i berthynasau yn galaru,
  Wrth ei roddi yn y bedd;
Hughes mewn urddas gaiff gyfodi
  Ar ddelw Iesu'n hardd ei wedd.

18 Ffarwel iddo, aeth i'w deyrnas,
  At John Evans, o'r *New Inn*,
Jones Llanllyfni, John Elias,
  Morgan Howells gyda hyn:
Heddyw maent yn dorf ddiderfyn,
  Yn clodfori Brenin nen,
A'u hanthemau'n rhoi'r gogoniant,
  Mawl, a moliant mwy. Amen.